

## **CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS**

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Gamedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym : 07903328655  
e-bost : [johnmaclellan9@icloud.com](mailto:johnmaclellan9@icloud.com)

**MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR-LEIN AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, TACH. 2ail, 2020.**

1. **CROESO** - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **YN BRESENNOL** - y Cadeirydd,, y Cynghorydd Irwedd Griffiths, a'r Cynghorwyr Hefin Williams; D.Gwyn Jones; Gwyndaf O. Roberts; Goronwy R.Williams, a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.
3. **YMDDIHEURIADAU** - yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans a'r Cynghorwyr Bryn Jones; Tudur W. Jones a John D. Roberts.

#### **4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordeb personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na allai gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau a drafodir, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymeud â pholisïau cynllunio a rheolaethau. **NI DDATGELWYD YR UN.**

5. **MUNUDAU - PENDERFYNWYD** Cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar Hydref 5ed, 2020.

6. **CYLLID - PENDERFYNWYD NODI** mantolau'r banc ar gyfer y cyfnod Medi 21ain , 2020, hyd at Hydref 21ain, 2020.

Cyfrif Cymuned/ .....£6682.98

Cyfrif Busnes/.....£5550.76

**CYMERADWYO'R FANTOLEN AR GYFER YR UN CYFNOD. CYTUNWYD** ar hynny gan bawb.

#### **7. GOHEBIAETH**

11.20/7(i) Llythyr o ddiolch gan Glwb yr Henoed. **NODWYD** hwnnw'n ddiolchgar.

11.20/7(ii) Llythyr o ddiolch gan bwyllgor Eisteddfod Calan Mai. **NODWYD** hwnnw'n ddiolchgar.

8. **TALIADAU A DDERBYNIWYD. PENDERFYNWYD NODI'r taliadau isod a dderbyniwyd.** Dywedodd y Clerc ei fod wedi gor-dalu anfoneb a gyflwynwyd ganddo ef am y swm a welir isod, a'i fod felly'n dychwelyd y gor-daliad i'r Cyngor.

11.20/8(i) Addasu siec 200080.....£ 0.18

9. **TALIADAU ALLAN - PENDERFYNODD YR AELODAU DALU'r holl eitemau ac anfonebau a restrir isod:-**

11.20/9(i) HMRC .....£ 71.81

11.20/9(ii) Cyflog y Clerc .....£ 287.23

11.20/9(iii) Cyfieithu (Hanner y gost) .....£ 10.50

10. **ER GWYBODAETH**

11.20/10(i) Gorchymyn rheolaeth traffig ffordd Ysgubor Newydd, Llanellian (15.9.20) **NODWYD.**

11.20/10(ii) Gorchymyn rheolaeth traffig Dolwen i Garnedd Uchaf, Dolwen. (6.10.20) **NODWYD.**

11.20/10(iii) Newidiadau i Reolaeth Ariannol 11.1a.(ii) Gofynnwyd i'r aelodau newid eu rheolaeth ariannol gyda'r newid a anfonwyd iddynt.

11.20/10(iv) **NODI** nad yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw gais am y sedd wag ar y Cyngor. **NODWYD** hynny. Roedd yr aelodau'n ymwybodol o ymgeisydd am y sedd wag, ac fe fyddai llythyr yn cael ei anfon at y Clerc.

11. **GRANTIAU - Doedd dim ceisiadau.**

12. **CYNLLUNIO**

11.20/12(i) 0/47770 Newid adolygol o ddefnydd o adeiladau a ddefnyddid fel dosbarthiadau B1; B2 a B8 ym Mryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Llanellian. (9.10.20) **PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.**

11.20/12(ii) 0/47814 Codi adeilad aml-bwrpas ar gyfer storio porthiant a pheiriannau ar dir i'r de o Fetws yn Rhos. Mr H. Zitoun. **PENDERFYNWYD GOHIRIOR PENDERFYNIAD HWN** gan fod angen mwy o wybodaeth.

11.20/12(iii) Fe wnaed yr aelodau'n ymwybodoil o ganlyniad apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer cadw cynwysyddion (Cyrff lorïau) yn Stâd Ddiwydiannol Minafon, Betws yn Rhos. Fe ganiatawyd yr apêl.

**13. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

11.20/13(i) Rhoi sylw i bwyntiau adolygu gan BDO LLP. Dywedodd y Clerc ei fod wedi ateb i'r ymholiad gan BDO a bod atodiad yn Atodiad 1.

**14. I GYTUNO AR Y PRAESEPT AR GYFER 2021/2022.** Fe drafododd yr aelodau gyflwyniad y Praesept a wnaed gan y Clerc. Y Praesept llawn yr oedd ei angen oedd £8607.54. Oherwydd y pandemig roedd arian wedi ei roi o'r neilltu am y flwyddyn ar gyfer rhentu adeiladau ym Metws yn Rhos a Llanellian yn Rhos hyd at gyfanswm o £200.00 ,a phrynu hysbysfwrdd (£200.00) - gwneud cyfanswm o £400.00 nad oedd wedi ei wario yn 2020/2021. Fe dynnwyd hyn allan o'r Praesept, yn gwneud cyfanswm o £8207.54. **PENDERFYNWYD** cymryd £207.54 allan o'r arian wrth gefn, ac anfon cais am Braesept o £8,000 i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Yn seiliedig ar y cyfrifiad a gyflenwyd gan Cyngor Bwrdeistref Conwy. Sylfaen treth y Cyngor ar priodweddau ar Fand D, mae'r treth i Fetws yn Rhos a Llanellian yn Rhos yn £463.63.

Felly yr formula i gyfrifo treth y Cyngor i'r Cyngor Cymuned ydy £8000.00 wedi'i rannu a £463.63 = £17.37 gan pob un priodwedd yn gael ei ychwanegir at fil treth y Cyngor mae hwn yn **OSTYNGIAD** o 11.11% o'i gymharu a llynedd.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.15y.h.

**CADEIRYDD.....DYDDIAD.....**

Gorffennod y Cyfarfod am.....